CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# 2006 Rhif 17

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006)

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *21 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16BB(4) ac 126(4) o Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**), yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn:

**Cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006 ac fe'u rhoddir i'r Byrddau Iechyd Lleol a ganlyn—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe; ac

---

(**1**) 1977 p.49; disodlwyd adran 16 gan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) (" Ddeddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 9 a'i diwygio gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ("Deddf 2002"), Atodlen 1, paragraff 3; mewnosodwyd adran 16B gan Ddeddf 1999, adran 2(1) a'i diwygio gan Ddeddf 2002, Atodlen 1, paragraff 4; disodlwyd adran 16 gan Ddeddf 1999, adran 12(1) a'i diwygio gan Ddeddf 2002, adran 3(2) ac Atodlen 1, paragraff 6; disodlwyd adran 17 gan Ddeddf 1999, adran 12(1) a'i diwygio gan Ddeddf 2002, Atodlen 1, paragraff 7; diwygiwyd adran 126(3) a (4) gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 65(2), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 p.46, Atodlen 2, paragraff 27, Deddf 1999, Atodlen 4, paragraff 37 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) ("Deddf 2001"), Atodlen 5, paragraff 5(13)(b); Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672).

(c) Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy.

(2) Yn y Cyfarwyddiadau hyn —

ystyr "carchardai perthnasol" *("relevant prisons")* yw Carchar ei Mawrhydi Caerdydd, Carchar ei Mawrhydi Abertawe, Carchar ei Mawrhydi Brynbuga a Charchar ei Mawrhydi Prescoed.

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae unrhyw berson sy'n cael ei gadw yn unrhyw un o'r carchardai perthnasol, am gyfnod y cadw hwnnw, i gael ei drin fel petai yn preswylio fel arfer dan gyfeiriad y carchardy hwnnw at ddibenion rheoliad 2(2) o Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau)(Cymru) 2003( **1**)

(2) Nid yw paragraff (2) yn gymwys o ran comisiynu gofal seiciatryddol mewn ysbyty at ddibenion symud person sy'n cael ei gadw mewn carchardy i ysbyty o dan adrannau 47 neu 48 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983( **2**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Mawrth 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) OS 2003/150 (Cy.20).

(**2**) 1983 p.20; diwygiwyd adran 47 gan Ddeddf (Dedfrydau) Troseddau 1997 (p.43), adrannau 49(3), 56(2) ac Atodlen 6; diwygiwyd adran 48 gan Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 (p.41),adran 62(10)(a).